

Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd

Rhan o Gwasanaethau Myfyrwyr



Adolygiad Effaith Blynyddol Menter ac Entrepreneuriaeth Prifysgol Bangor 2020

Pwy ydym ni?

Darperir cefnogaeth menter ac entrepreneuriaeth i fyfyrwyr a graddedigion trwy B-Fentrus sydd wedi ei leoli yn y Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd.

Mae ein cefnogaeth yn cynnwys mentora busnes un i un, cyfleoedd i brofi masnachu, mynediad at gyllid, rhwydweithiau a chefnogaeth, a gweminarau a chyflwyniadau.

Ein Cenhadaeth

Mae gan Brifysgol Bangor genhadaeth gref ac ymrwymiad i les economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru ac mae'n rhoi cyfleoedd i'r myfyrwyr ddatblygu eu sgiliau menter ac entrepreneuriaeth ac i gefnogi'r rhai sydd â diddordeb mewn datblygu eu syniadau busnes.

Gwerth Addysg Menter ac Entrepreneuriaeth

Gall dysgu am fentro a chael profiad o fentro tra yn y brifysgol arwain at sawl budd. Mae'n rhoi gwahanol safbwyntiau i fyfyrwyr ynghyd â'u hopsiynau gyfira a'r hyder i sefydlu eu busnes neu fenter gymdeithasol eu hunain. Bydd cymwyseddau menter yn ddefnyddiol i'r rhai sydd mewn cyflogaeth, neu'r rhai sy'n mynd yn hunangyflogedig ac yn weithio ar eu llywodraeth eu hunain neu ar sail ymgynghoriaeth. Gall helpu i ddatblygu hyder 'gallaf-wneud', dull cwestiynu creadigol a pharodwydd i fentro, gan alluogi unigolion i reoli ansicrwydd yn y gweithle a phatrymau gweithio ihylyg a gyrfaoedd.

"QAA Enterprise and Entrepreneurship Education 2018"

[QAA Enterprise and Entrepreneurship Education](#)

Covid 19 - Addasu i Adfyd

Mae'r anawsterau a wynebwyd oherwydd y pandemig wedi effeithio ar y ffordd yr ydym wedi gallu darparu ein cefnogaeth ac ymgysylltu â'n myfyrwyr eleni. Ond mae hefyd wedi rhoi cyfleoedd newydd a fyfyrdd newydd o ddarparu'r gefnogaeth. Mae hefyd wedi ein caniatáu i gydweithio a rhwydweithio ag eraill sydd y tu allan i'n hardal ac mae hyn wedi galluogi darparu ar y cyd â phob un o'r sefydliadau eraill yng Nghymru ar wahanol broiectau.

Cefnogaeth Ariannol

Mae Prifysgol Bangor yn derbyn cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru a Phrifysgolion Santander i'n galluogi i gynnig cyfleoedd arloesi i'n myfyrwyr. Rydym yn cydweithio ag ystod o bartneriaid allanol gan ddefnyddio egwyddorion Creu Sparc o greu ecosystem entrepreneuriaeth fwy gweladwy, syml a chysylltiedig yng Nghymru.

Cynnig B-Fentrus...

Gweminarau a chyflwyniadau ar-lein

Cyfleoedd i'n myfyrwyr ddatblygu eu sgiliau menter a chael cefnogaeth i ddechrau busnes trwy weminarau a bwt-camp. Cafodd nifer o'r rhain eu cyflwyno gan fodolau rôl ac arbenigwyr entrepreneuriaeth a'u hwylyso gan Syniadau Mawr Cymru, M-SParc, y Canolbwynt Menter ac eraill.

Lleoliadau hunangyflogedig

Lleoliadau â thâl lle gall myfyrwyr weithio i ddatblygu eu syniadau busnes wrth dderbyn mentora arbenigol. Mae hyn yn galluogi iddynt weithio ar ddatblygu eu syniad busnes yn hytrach na dod i hyd i waith arall.

Cyfleoedd profi masnachu

Oherwydd y pandemig, nid oedd modd cynnal ein Marchnad Myfyrwyr Cymru blynyddol eleni ond yn ei le, trwy weithio efo eraill yng Nghymru, creuwyd y Farchnad Myfyrwyr Cymru. Rhoddodd hyn blatfform newydd i fyfyrwyr gael gwerthu ar-lein ac atynwyd bron i 7,000 o ymwelwyr. Rhoddwyd gymorth i'n myfyrwyr a graddedigion i ddatblygu eu marchnata digidol a brandio yn ogystal â help i ysgrifennu copi a chyllid i ddatblygu eu cynnig a gadael iddynt arbrofi'r farchnad.

www.walesstudentmarket.co.uk/cy

"Mae fy siop ar Etsy wedi gwerthu mwy ers ymunio â Marchnad Myfyrwyr Cymru ac mae'r gefnogaeth a gefais ymlaen llaw wedi fy helpu i wella ansawdd a diwyg fy nghynnyrch yn ogystal â'r deunydd pacio sydd wedi derbyn sylwadau gwych."

Amy Irvine

Myfyrwr israddedig o'r Ysgol Cerddoriaeth, Drama a Pherfformio a pherchennog Mai Irvine Art

Hoffwn ddiolch i B-Fentrus gan eu bod wedi fy nghafnogi trwy drefnu cyfarfodydd efo ymgynghorydd busnes Syniadau Mawr Cymru, ysgrifennwr copi, a dylunwyd graffig sydd wedi bod o gymorth mawr. Rydw i hefyd wedi cael grant SEA Discover Prifysgolion Santander a byddaf yn ei ddefnyddio i archebu deunydd pecynnu, sticeri a chardiau busnes newydd efo fy logo newydd amyn nhw!

Maisie Wise

Shell Yeah Earrings a myfyrwrraig Biolog Mor

Cyfleoedd i rwydweithio

Cyfeirir ein myfyrwyr a'n graddedigion mentrus hefyd at bartneriaid eraill fel Syniadau Mawr Cymru, M-SParc a'r Hwb Menter i rwydweithio a datblygu eu syniadau a'u busnesau.

[Jan Lloyd-Nicholson a Henry's Cushion](#)



Mentora un-i-un i ddatblygu syniad busnes

"Mae'r wybodaeth a'r cynngor rydw i wedi'u derbyn wedi bod yn wych ac wedi fy helpu i deimlo'n hyderus am fy busnes."

Ashleigh Wood

Myfyrwrraig israddedig Seicoleg a pherchennog Creative Cognitions

[Cliciwch yma i edrych ar Creative Cognitions](#)

Mae 91% o'r adborth a dderbyniwyd yn dweud for y seslynnau un-i-un efo mentor Syniadau Mawr Cymru wedi eu helpu i ddatblygu eu syniad busnes a rhoi'r hyder iddynt i symyd ymlaen i'r cam nesaf.

SEA - Sbarduno Menter Santander

Cyllid a chefnogaeth i Ddarganfod, Diffinio, Datblygu a Darparu

[Cliciwch yma i Ddysgu mwy am SEA](#)

Mae'r cyllid a'r gefnogaeth a gynnigir trwy SEA wedi helpu ein myfyrwyr i brofi masnach eu syniadau, gwneud ymchwil i'r farchnad a chael swyddfa am ddim yn M-SParc. Mae'r pandemig wedi cyfyngu'r defnydd o'r man deori ond mae'r rhwydweithio a'r gefnogaeth wedi parhau ar-lein ac mae'r busnesau newydd wedi gallu elwa o weminarau ar-lein yr Hwb Menter a chyfleoedd rhwydweithio M-SParc, gyda thenantiaid a defnyddwyr eraill yr adeilad.

"Mae'r cyllid SEA Define wedi fy ngalluogi i wneud project na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Mae wedi fy arwain i allu gweithio ar broiect arall, gan ganiatáu i'r busnes symud ymlaen. Ers hynny, rwyf wedi cael cais i weithio ar gerddoriaeth ar gyfer gêm fideo broffesiynol."

Sam Davies

SDG Productions a myfyrwr ôl-raddedig yr Ysgol Cerddoriaeth

Heb y grant SEA Define ni fyddwn wedi gallu parhau â fy busnes. Gwnaeth fy helpu i ddefnyddio hysbysebu wedi'i dargedu er mwyn ymestyn i bum cyfandir. Achubodd y grant fy busnes a byddaf yn ddiolchgar am hynny am byth."

Chloe Donnelly

CMD Tutoring a myfyrwrraig israddedig BA Sbaeneg/Eidaleg

Uchafbwyntiau 2020...

70 o fyfyrwyr £36k o gyllid

Derbyniodd 70 o fyfyrwyr cyllid o £36,300 i brofi masnach neu wneud ymchwil i'r farchnad i ddatblygu syniad trwy gyllid SEA Prifysgolion Santander a hefyd trwy gyllid Menter Argyfwng Covid i gefnogi busnesau newydd a rhai sy'n datblygu gan fyfyrwyr a graddedigion ar ddechrau'r covid-19 pandemig.

Menter Prifysgolion Bangor a Santander cefnogaeth yn ystod argyfwng Covid

"Gwnaethom lwyddo i barhau i weithio tuag at ein lansiad, er ei fod braidd yn arafach. Heb y grant hwn mae'n debyg iawn y byddem wedi gorffod oeddi'r busnes."

Josef Roberts

Pai Language Learning

Ymunodd 43 fyfyrwr a graddedigion â "Marchnad Myfyrwyr Cymru"

Cynhaliwyd Marchnad Nadolig flynyddol y Myfyrwyr ar-lein eleni a gwerthodd 43 o fyfyrwyr a graddedigion Prifysgol Bangor eu nwyddau a'u gwasanaethau ym Marchnad Myfyrwyr Cymru.

www.marchnadmyfyrwyr.co.uk

Dechreuodd 34 o fyfyrwyr eu busnesau eu hunain yn ystod y flwyddyn

[AR AGOR AM BUSNES](#)

Derbyniodd 72 o fyfyrwyr fentora un i un gyda chynghorydd busnes Syniadau Mawr Cymru yn ystod y flwyddyn mewn dros 100 o gyfarfodydd



9 yn y man Deori yn M-SParc

Cynigwyd desg i 9 fyfyrwr a graddedigion yn y man deori Prifysgolion Santander yn M-SParc a bu'r Hwb Menter yn eu cynorthwyo.

Cliciwch ar y linc i glywed gan un o'r tenantiaid, Sion Davies o Ddillad Arfordir.

Cofrestwyd 65 o fyfyrwyr i'r Wythnos Cychwyn Busnes yr Haf

Cynhaliwyd 115 gyfarfodydd rhoi cynngor ar fentora busnes

[WYTHNOS CYCHWYN CYBUSNES YR HAF](#)

[www.wythnos-cychwyn-cybusnes-yr-haf.co.uk](#)

Cefnogwyd 39 o fyfyrwyr trwy Enactus Bangor



Arianwyd 11 o fyfyrwyr i ymgymryd a lleoliadau dechrau busnes

634 o fyfyrwyr wedi eu grymuso i archwilio trwy weithdai



Cafodd 16 o astudiaethau achos am fyfyrwyr mentrus eu rhannu trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn.


Beth mae Jess wedi bod yn ei wneud? Beth mae Maisie wedi bod yn ei wneud?

Gwobr Catalydd Addysgwyr Menter Cenedlaethol ar gyfer yr Wythnos Haf Dechrau Busnes

Enillwyd 2020



Bu 60 o fyfyrwyr yn cymryd rhan yn Enterprise by Design



Bu 60 o fyfyrwyr yn cymryd rhan yn Enterprise by Design, cwrs arbrofol ac amlddisgyblaethol arloesol, a reolir trwy Pontio Arloesi gyda chefnogaeth B-Fentrus, sy'n dwyn ynghyd myfyrwyr a staff o'r Ysgolion Busnes, Seicoleg, Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig a Dylunio Cynnyrch i ymdrin â hieiau masnachol bywyd go iariau a osodir gan ddywydiant. Yn ogystal â datblygu sgiliau menter y myfyrwyr, mae'r cwrs hefyd wedi helpu'r staff academaidd i ddatblygu gwahanol fyfyrdd o addysgu ac asesu yn eu hysgolion academaidd eu hunain.

TIM STAFF ACADEMAIDD

O'r chwith i'r dde: Andy Goodman, Iestyn Pierce, Steffan Thomas, Siwan Mitchellmore, Gareth Harvey a Dewi Rowlands

[Cliciwch yma am fwy o fanylion am Enterprise by Design](#)

Un a gyraeddodd rownd gynderfynol cystadleuath Prifysgol Santander gan ennill Gwobr Dewis y Beirniaid yw

Jan Lloyd-Nicholson gyda Henry's Cushion

[Dysgu am Henry's Cushion](#)



Ein Busnesau newydd a ddechreuwyd...




Daniel Gorton a Sam Davies
SDG Productions

www.sdg-productions.com

Dechreuodd Daniel a Sam eu busnes cynhyrchu cerddoriaeth a fideo eu hunain gan odhew yn astudio ym Mhrifysgol Bangor. Erbyn hyn mae ganddyn nhw swyddfa yn y Man Deori yn M-SParc.

"Ers dod o hyd i'r gefnogaeth a roddir gan Byddwch Fentrus, mae SDG Productions wedi gallu rhwydweithio gydag amrywiaeth eang o gymnau a chael cefnogaeth i helpu estyn allan i'r gymuned leol. Rydym hefyd wedi derbyn cyllid hanfodol, mynediad i wasanaethau fel cael lle yn M-SParc ac rwyf wedi cael llawer o gyngor a chefnogaeth am ddim gan staff yn M-SParc a'r Canolbwynt Menter."

Daniel Gorton



Sherena Huang
Befficient Ltd

www.befficient.co.uk

Mae Befficient Ltd wedi'i leoli yn M-SParc ac mae Sherena Huang wedi derbyn cefnogaeth gan gydweithrediad o bartneriaid, gan gynnwys Syniad Mawr Cymru, y Hwb Menter, Prifysgolion Santander a Phrifysgol Bangor.

"Mae Byddwch Fentrus wedi rhoi cefnogaeth wych i fy busnes. O ganlyniad i'r gefnogaeth, rwyf wedi dechrau fy syniad busnes a'i wneud yn weladwy ar-lein. Rwyf wedi cael cynnig swyddfa am ddim yn M-SParc ac wedi derbyn cynngor gan ymgynghorwyr busnes a'r Hwb Menter. Mae'r cyllid hanfodol a roddwyd trwy Byddwch Fentrus wedi helpu fy busnes i symud ymlaen yn ystod y pandemig."

Sherena Huang

RHAGOR O WYBODAETH:

B-Fentrus@bangor.ac.uk

[B_Fentrus](#)

[B-Fentrus Bangor](#)

[B_Fentrus](#)



Lowri Owen
Rheolwr Proiectau Menter



Eirian Griffiths
Swyddog Cyflogadwyedd